# Strategaeth Gofalwyr Ifanc

**2009**









Torfaen Children and Young People's Partnership
Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Torfaen

TORFAEN COUNTY BOROUGH
BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

# Cynnwys


| | | Page |
|---|---|---|
| **1** | Cyflwyniad | 4 |
| 1.1 | Gweledigaeth Strategol | 4 |
| 1.2 | Diffiniad | 4 |
| 1.3 | Cynllunio ar y Cyd | 5 |
| **2** | Cyd-Destun Deddfwriaethau a Pholisïau | 7 |
| 2.1 | Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn | 7 |
| 2.2 | Deddfwriaethau a Chanllawiau Perthnasol | 7 |
| **3** | Egwyddorion Ymarfer Sylfaenol Allweddol | 9 |
| **4** | Cwmpas Y Strategaeth 2009 - 2010 | 11 |
| **5** | Dadansoddiad o Ofalwyr Ifanc ac Ymchwil | 13 |
| **6** | Nodyn am Ofalwyr Ifanc | 15 |
| 6.1 | Beth y mae Gofalwyr Ifanc yn ei wneud? | 15 |
| 6.2 | Effaith gofalu | 15 |
| 6.3 | Beth y mae Gofalwyr Ifanc yn ei ddymuno? | 16 |
| 6.4 | Ciplun gan rai o'n Gofalwyr Ifanc | 17 |
| **7** | Beth sydd wedi'I sefydlu ar gyfer Gofalwyr Ifanc yn Nhorfaen ar hyn o bryd? | 19 |
| **8** | Blaenoriaethau ar Gyfer 2009 - 10 | 21 |
| **9** | Sicrhau Bod y Strategaeth yn Arwain at Welliant Mewn Gwasanaethau ar Gyfer Gofalwyr Ifanc | 23 |
| | Atodiad | 25 |

## Rhagair...

Mae Gofalwyr Ifanc yn bobl arbennig sy'n ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol yn ystod eu bywydau ifanc. Am amrywiol resymau, maent yn cyflawni rôl fel gofalwr i rywun sy'n agos atynt.

Mae'r ystod o dasgau gofalu y maent yn ymgymryd â hwy yn aml yn gymhleth ac yn feichus. Fe all, er enghraifft, gynnwys rhoi gofal corfforol i rywun sydd â salwch, anabledd, cyflwr iechyd meddwl neu gyflwr sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau. Fe all Gofalwr Ifanc dreulio cryn dipyn o'i amser yn cyflawni tasgau domestig cyffredinol, yn darparu gofal personol, ac yn cynnig cefnogaeth emosiynol; fe all nifer o'r dyletswyddau hyn gael eu cymryd yn ganiataol, megis casglu meddyginiaethau ar bresgripsiwn a threfnu apwyntiadau meddygol. Mae nifer o Ofalwyr Ifanc hefyd yn gyfrifol am ofalu am frodyr a chwiorydd iau.

Er mawr glod iddynt, yn gyffredinol nid yw Gofalwyr Ifanc yn ystyried bod eu rôl yn ymyrryd â'u bywydau; mae'n rhywbeth y maent yn ei wneud tra bo pobl ifanc eraill o oedran tebyg yn dod i oed gyda mwy o ymdeimlad o ryddid, dewis a chyfle.

Serch hynny, mae gofalu am rywun yn effeithio ar y ffordd y mae Gofalwyr Ifanc yn dod i oed, a bydd yn aml yn cyfyngu arnynt rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau bob dydd. Tra bo'r bobl hyn yn gallu teimlo'n falch o'r hyn y maent yn ei gyflawni, fe all hefyd greu cyfrifoldebau a phwysau ychwanegol nas dymunir. Gall fod yn anoddach i Ofalwyr Ifanc ymdopi â bywyd ysgol, ac efallai y bydd y cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a hamdden gyda'u cyfoedion yn cael eu cyfyngu oherwydd ymdeimlad o ddyletswydd a threfn arferol. Nid yw delio ag unigedd a chael eu cau allan yn hawdd i berson ifanc sy'n meddu ar ei anghenion iechyd, personol, cymdeithasol a datblygu ef / hi ei hun.

Felly, diben y strategaeth hon yw cydnabod y ffaith bod Gofalwyr Ifanc yn bwysig, a bod angen cydnabyddiaeth a chefnogaeth arnynt. Mae'n adlewyrchu nod y Strategaeth Comisiynu Gofalwyr 2008 - 2013 gyffredinol, y strategaeth comisiynu gofal iechyd a chymdeithasol ar y cyd cyntaf ar gyfer gofalwyr yn Nhorfaen, i sicrhau bod Gofalwyr Ifanc yn cael llais.

Rydym yn anelu i roi cefnogaeth trwy raglen hyblyg sy'n galluogi Gofalwyr Ifanc i fwynhau dod i oed ochr yn ochr â'u cyfoedion.

Cafodd y strategaeth hon ei datblygu mewn ymgynghoriad â Gofalwyr Ifanc a'r amrywiol sefydliadau statudol a gwirfoddol sy'n ymwneud â phobl ifanc. Mae'n gam pwysig i'r cyfeiriad cywir. Mae'n cydymffurfio â disgwyliadau deddfwriaethau ac yn cyflwyno cyfle gwirioneddol i ddangos fel y gwerthfawrogir ac y perchir Gofalwyr Ifanc yn fawr yn y cymunedau y maent yn byw ynddynt.

Keith Rutherford
Pennaeth Gwasanaethau Plant
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Mark Provis
Cyfarwyddwr Arweiniol Plant a Phobl Ifanc
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Cynghorydd Brian Mawby
Aelod Gweithredol Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Cynghorydd Mary Barnett
Aelod Gweithredol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

# Adran 1: Cyflwyniad


1.1 Gweledigaeth Strategol

1.2 Diffiniad

1.3 Cynllunio ar y Cyd




## Cyflwyniad

### 1.1 Gweledigaeth Strategol

Fe ddaw'r strategaeth hon ag asiantaethau ynghyd â'r bwriad o godi ymwybyddiaeth a gwella canlyniadau ar gyfer Gofalwyr Ifanc yn Nhorfaen. Mae'n cynnwys barn Gofalwyr Ifanc ac asiantaethau allweddol. Cafodd ei datblygu oherwydd cydnabuwyd gan ddeddfwriaeth a chanllawiau bod Gofalwyr Ifanc yn grŵp o bobl ifanc y mae angen cefnogaeth arnynt.

Mae'r strategaeth yn bwysig oherwydd fe all bod yn Ofalwr Ifanc:

- Gael effaith andwyol ar les corfforol neu emosiynol rhywun ifanc a chyfyngu ar eu cyfleoedd cymdeithasol neu addysgol
- Beidio â chael ei gydnabod gan weithwyr proffesiynol, ac felly efallai y bydd diffyg gwybodaeth gan Ofalwyr Ifanc am eu rôl gofalu ac anghenion y sawl y maent yn gofalu amdano
- Guddio lefel y gofal sydd ei angen ar y sawl y gofelir amdano hyd nes y bydd yna argyfwng. Fe all hynny olygu bod y Gofalwr Ifanc a'r sawl y gofelir amdano'n agored i niwed
- Gyfyngu ar ddewis y Gofalwr Ifanc i ofalu neu i beidio â gofalu.

### 1.2 Diffiniad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn diffinio Gofalwr Ifanc fel plentyn neu rywun ifanc dan 18 [1]oed sy'n ymgymryd â gwaith gofalu sylweddol ynghyd â thasgau yn y cartref ar ran:

- Rhiant/rhieni
- Brawd/brodyr neu chwaer/chwiorydd
- Nain / neiniau a thaid/teidiau
- Perthnasau

Sy'n dioddef

- Anabledd corfforol
- Salwch hirdymor
- Problemau iechyd meddwl neu anabledd dysgu
- Problem sydd a wnelo â chamddefnyddio sylweddau

[1]Mae trefniadau eisoes yn eu lle i ymestyn yr oedran i 21 mewn rhai achosion

## 1.3 Cynllunio ar y Cyd

Mae gwaith cynllunio gwasanaethau ar gyfer Gofalwyr Ifanc yn cael ei wneud trwy'r Grŵp Strategaeth Gofalwyr Ifanc sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Croesffyrdd De Ddwyrain Cymru, sefydliadau gwirfoddol Cynghrair Gwirfoddol Torfaen a Bwrdd Iechyd Lleol Torfaen.

Mae'r grŵp llywio'n adrodd i'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, sy'n gyfrifol am weithredu'r Strategaeth Gofalwyr Ifanc. Yn ymarferol, mae hynny'n golygu sefydlu is-grwpiau sy'n canolbwyntio ar dasgau penodol er mwyn symud y blaenoriaethau penodol yn y strategaeth hon yn eu blaenau.



# Adran 2: Cyd-Destun Deddfwriaethau a Pholisïau

2.1 Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

2.2 Deddfwriaethau a Chanllawiau Perthnasol

Adran 2

# Cyd-Destun Deddfwriaethau a Pholisïau

## 2.1 Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi mabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig yn ffurfiol fel un sy'n darparu'r egwyddorion sylfaenol ar gyfer gwasanaethau i blant a phobl ifanc. Yn y cyd-destun hwn, mae'r Cynulliad wedi mabwysiadu saith o nodau allweddol ar gyfer pob gwasanaeth sy'n ymdrin â phlant a phobl ifanc.

Mae'r nodau allweddol hyn yn cynnwys sicrhau bod pob plentyn yn cael y cychwyn gorau mewn bywyd a'r sail orau bosibl ar gyfer eu prifiant a'u datblygiad yn y dyfodol. Maent hefyd yn ymdrin â darparu gofal a gwasanaethau eraill; amddiffyn rhag camdriniaeth; erledigaeth ac ymelwad; cael cyfleoedd i chwarae; yr angen i barchu a gwrando ar blant, a thlodi plant. Yn Nhorfaen, mae'r nodau craidd hyn wedi cael eu datblygu'n ffurfiol yn y Cynllun Sengl ar gyfer Plant a Phobl Ifanc (2008 - 2011) a'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol i Blant, Pobl Ifanc a'r agenda Gwasanaethau Mamolaeth.

## 2.2 Deddfwriaethau a Chanllawiau Perthnasol

Mae dyletswyddau a galluoedd awdurdodau lleol i gynorthwyo pobl ifanc sy'n meddu ar gyfrifoldebau gofalu wedi'u sefydlu mewn nifer o ddarnau allweddol o ddeddfwriaeth. Mae'r rheiny'n cynnwys **Deddf Plant 1989, Deddf Plant 2004, Deddf Gofalwyr (Cyfle Cyfartal) 1995** a Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) (gweler yr atodiad am fanylion).

**Strategaeth ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd:** Mae'r arweiniad hwn a gynhyrchwyd gan yr Adran Iechyd, yr Adran dros Addysg a Chyflogaeth Swyddfa Gartref yn 2000 yn manylu ar sut y dylid ymgymryd ag asesiadau. Yn y ddogfen gyfarwyddyd, sef y Cyfarwyddyd Ymarfer, argymhellir y dylai'r ymarferydd gael golwg ar unrhyw blentyn yng nghyd-destun y teulu cyfan.

Mae'r strategaeth yn datgan: 'Mae'n hanfodol asesu amgylchiadau'r teulu. Ni ddylid disgwyl i Gynhalwyr Ifanc ymgymryd â lefelau gofal anaddas a fyddai'n cael effaith niweidiol ar eu datblygiad a'u cyfleoedd mewn bywyd. Ni ddylid derbyn y dylai plant ymgymryd â lefelau tebyg o gyfrifoldebau gofal ag oedolion. Dylid darparu gwasanaethau i rieni i wella eu gallu i gyflawni eu cyfrifoldebau magu plant'.



# Adran 3: Edwyddorion Ymarfer Sylfaenol Allweddol

# Adran 3 Egwyddorion Ymarfer Sylfaenol Allweddol

- Mae Gofalwyr Ifanc yn bobl ifanc yn y lle cyntaf ac fe ddylai cefnogaeth/gwasanaethau priodol adlewyrchu hynny
- Mae gan Ofalwyr Ifanc yr hawl i asesiadau angen er mwyn pennu a oes angen unrhyw gefnogaeth ychwanegol arnynt
- Rhaid i'r holl wasanaethau fod yn hygyrch i bob rhan o'r gymuned a rhoi ystyriaeth i ofynion yr unigolyn o ran diwylliant, crefydd, iaith ac arfer.

Mae'r egwyddorion sylfaenol a ganlyn y gofynnwyd amdanynt gan Ofalwyr Ifanc yn rhan annatod o'r strategaeth hon:

- Bod pob gwasanaeth yn dderbyniol, yn hygyrch ac yn briodol i'r angen a bennwyd
- Bod pob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio â Gofalwyr Ifanc yn sicrhau nad ydynt yn croesi'r ffin sy'n bodoli rhwng helpu ac ymyrryd.

Mae'r themâu sy'n rhedeg trwy'r strategaeth hon yn cynnwys gwaith aml-asiantaeth effeithiol, cynnwys Gofalwyr Ifanc wrth gynllunio a darparu gwasanaethau a gwybodaeth well i'r holl bartïon.



# Adran 4: Cwmpas y Strategaeth 2009 – 2010

Adran 4

# Cwmpas y Strategaeth 2009-2010

Mae cwmpas y strategaeth ar gyfer ardal Torfaen yn amlinellu'r fframwaith ar gyfer gwasanaethau aml-asiantaeth Gofalwyr Ifanc o Ionawr 2009 - Rhagfyr 2010.

Lluniwyd y strategaeth gan y Grŵp Strategaeth Gofalwyr Ifanc ar gyfer Partneriaeth Fframwaith Plant a Phobl Ifanc Torfaen.

Nod gyffredinol y strategaeth yw codi ymwybyddiaeth ynglŷn â Gofalwyr Ifanc, a gwella'r canlyniadau ar eu cyfer, yn ogystal â'u hanghenion sy'n deillio o'u swyddogaethau a chyfrifoldebau gofalu. Bydd hefyd yn cryfhau'r gefnogaeth aml-asiantaeth i sicrhau cydbwysedd rhwng gofalu a byw bywyd cyffredin trwy wasanaethau sydd wedi'u dylunio i:

- Cydnabod cryfderau Gofalwyr Ifanc
- Cynnwys Gofalwyr Ifanc wrth ddylunio a datblygu gwasanaethau cymorth
- Darparu ystod o gefnogaeth amserol, briodol ac o ansawdd
- Sicrhau bod Gofalwyr Ifanc a'u teuluoedd yn gallu cael mynediad at ymyriadau buan sy'n cefnogi'r teulu cyfan
- Cynnwys codi ymwybyddiaeth o Ofalwyr Ifanc fel rhan o raglenni hyfforddiant cyfredol ac yn y dyfodol ar gyfer staff o'r asiantaethau allweddol
- Cefnogi Gofalwyr Ifanc wrth ymgymryd ag ystod o dasgau ar gyfer aelodau'r teulu
- Monitro ac adolygu yn rheolaidd y gefnogaeth a roddir i Ofalwyr Ifanc
- Sicrhau datblygiad Gofalwyr Ifanc i'r eithaf er mwyn eu galluogi i gyflawni eu potensial.



# Adran 5: Dadansoddiad o Ofalwyr Ifanc ac Ymchwil

# Dadansoddiad o Ofalwyr Ifanc ac Ymchwil

Mae Cyfrifiad 2001 yn awgrymu bod yna oddeutu 175,000 o Ofalwyr Ifanc yn y DU. Roedd y ffigurau blaenorol yn awgrymu bod y niferoedd rhwng 20,000 a 50,000 o blant a phobl ifanc sy'n gofalu am aelodau o'u teuluoedd eu hunain.

Bydd y Cyfrifiad nesaf, yn 2011, eto yn cynnwys cwestiwn i geisio pennu gofalwyr.

Mae gwybodaeth gan MIND 2007 yn awgrymu'r hyn a ganlyn:

- Yn ôl Cymdeithas Genedlaethol y Cynhalwyr, mae 29 y cant o'r holl Ofalwyr Ifanc yn gofalu am rywun â phroblem iechyd meddwl
- Cyfartaledd oed Gofalwyr Ifanc yw 12
- Mae pum deg chwech y cant o Ofalwyr Ifanc yn byw mewn teuluoedd unig riant
- Mae 10% o Ofalwyr Ifanc yn gofalu am fwy nag un person
- Mae ugain y cant o Ofalwyr Ifanc a'u teuluoedd yn ymdopi heb wasanaethau cefnogi allanol, ar wahân i'w cyswllt â'r Prosiect Gofalwyr Ifanc.

Yn fwy diweddar, cyhoeddodd Ymddiriedolaeth y Dywysoges Frenhinol i Ofalwyr, sy'n cefnogi 15,500 o Ofalwyr Ifanc ar hyn o bryd, adroddiad ar y cyd gydag Alcohol Concern, yn amlygu'r effaith negyddol y gall arferion yfed cronig rhiant ei chael ar les eu plant. Mae'r adroddiad 'Cadw o Fewn y Teulu' yn amcangyfrif bod oddeutu un filiwn o blant yn byw gyda rhiant sy'n ddibynnol ar ddiod. Mae'n amlygu achosion lle mae arferion yfed y rhiant mor wanychol fel bod y plant wedi cael eu gorfodi i ymgymryd â rôl gofalu.

Mae'n anodd bod yn sicr faint yn union o Ofalwyr Ifanc sy'n byw yn Nhorfaen, gan fod gymaint o bobl ifanc yn peidio â gadael i wasanaethau gael gwybod amdanynt. Serch hynny, ym mis Mawrth 2008, llwyddodd y Prosiect Gofalwyr Ifanc i ddarganfod bod 100 o Ofalwyr Ifanc yn hysbys i'r prosiect.



# Adran 6: Nodyn am Ofalwyr Ifanc

6.1 Beth y mae Gofalwyr Ifanc yn ei wneud?

6.2 Effaith gofalu

6.3 Beth y mae Gofalwyr Ifanc yn ei ddymuno?

6.4 Ciplun gan rai o'n Gofalwyr Ifanc

# Nodyn am Ofalwyr Ifanc

## 6.1 Beth y mae Gofalwyr Ifanc yn ei wneud?

Mae Gofalwyr Ifanc yn ymgymryd ag ystod o dasgau gofalu:

- Tasgau domestig megis coginio, glanhau, golchi, smwddio
- Gofal a chefnogaeth gyffredinol megis tasgau nyrsio – rhoi meddyginiaeth, newid rhwymynnau, helpu â symudedd
- Cefnogaeth emosiynol – 'bod yno' ac, mewn rhai achosion darparu rhwyd ddiogelwch ar gyfer y person y maent yn gofalu amdano
- Gofal personol – golchi, gwisgo a chynorthwyo ag anghenion toiled
- Gofalu am blant – helpu â brodyr a chwiorydd iau yn ychwanegol at dasgau gofalu eraill
- Tasgau eraill – helpu â thasgau'r cartref yn ogystal â thasgau gweinyddol eraill, talu biliau, hebrwng i'r ysbyty / grwpiau cefnogi a digwyddiadau cymdeithasol eraill
- Cyfrifoldeb dros gysylltu â chymorth mewn argyfwng
- Cyfrifoldeb dros benderfynu pryd i gysylltu â chefnogaeth mewn argyfwng.

## 6.2 Effaith gofalu

Mae effeithiau cadarnhaol yn perthyn i ofalu sydd wedi cael eu hadrodd gan y Gofalwyr Ifanc eu hunain, megis dysgu sgiliau ymarferol, teimlo'n dda amdanynt eu hunain oherwydd eu bod yn cynorthwyo rhywun sy'n agos atynt ac ymdeimlad cryf o gyfrifoldeb.

Fodd bynnag, mae Gofalwyr Ifanc yn aml yn methu allan ar nifer o weithgareddau beunyddiol y mae pobl ifanc eraill yn eu cymryd yn ganiataol. Fe all effaith hynny arwain at:

- Broblemau addysgol, e.e. bod yn hwyr neu'n absennol o ganlyniad i'w cyfrifoldebau gofalu / blinder, methu â chanolbwyntio / cyfleoedd llai i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol neu gwblhau gwaith cartref



- Cyfleoedd, gorwelion a dyheadau cyfyngedig
- Cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol a hamdden
- Diffyg dealltwriaeth gan gyfoedion a chyfeillgarwch cyfyngedig
- Unigedd, ymdeimlad o gael eu cau allan a theimlo fel dieithryn
- Bwlio
- 'Gwarthnod trwy gysylltiad' sydd a wnelo ag anabledd corfforol neu salwch iechyd meddwl
- Ofni beth allai gweithwyr proffesiynol ei *wneud*
- Byw â thawelwch ac ofn
- Anawsterau iechyd ac emosiynol gan gynnwys anafu eu hunain
- Derbyn cyfrifoldeb oedolyn yn fuan, ac annisgwyl, a fydd yn aml yn arwain at anawsterau yn y cyfnod o newid i fod yn oedolyn.

## 6.3 Beth y mae Gofalwyr Ifanc yn ei ddymuno?

Mae Gofalwyr Ifanc yn Nhorfaen, gan weithio â'r Gwasanaethau Plant, fel rhan o'r tîm adolygu ar gyfer y strategaeth hon, wedi adnabod ffactorau y maent yn teimlo bod arnynt eu hangen fwyaf wrth ddefnyddio gwasanaethau. Roedd y rheiny'n cynnwys cael cysondeb, cael rhywun i siarad â hwy, rhywun sy'n deall eu hamgylchiadau, sy'n ymatal rhag barnu, ac sy'n gallu empatheiddio a'u cynrychioli heb fygythiad pellach o 'raeadr ymyrraeth' neu gael eu gwahanu oddi wrth eu teuluoedd. Maent wedi dweud yr hoffent:

- Gael cydnabyddiaeth o'u rôl
- Gwasanaethau sy'n dderbyniol ac yn hygyrch
- Cefnogaeth pan a lle maent yn teimlo bod angen hynny arnynt – yn enwedig mewn ysgolion neu yng nghyd-destun addysgol arall
- Gwybodaeth / hyfforddiant yn enwedig ynghylch salwch / anabledd y sawl y maent yn gofalu amdano
- Hoe o'u cyfrifoldebau gofalu
- Cyfarfod â Gofalwyr Ifanc sydd mewn sefyllfa debyg
- Cefnogaeth ar gyfer y teulu cyfan – gan gynnwys cyngor ynglŷn â budd-daliadau
- Cael dweud eu dweud mewn cysylltiad â phenderfyniadau.

### 6.4 Ciplun gan rai o'n Gofalwyr Ifanc

**Ryan, 14 mlwydd oed** – Rwy'n helpu i ofalu am fy mam sy'n dioddef â'i hiechyd meddwl ac mae'n ddibynnol ar alcohol. Mae'n rhaid i mi gymryd cyfrifoldeb am dasgau yn y cartref, talu biliau a gofalu amdani pan yw hi'n sâl. Rwy'n poeni'n ofnadwy amdani pan nad ydw i yno i gadw llygad arni, oherwydd dyn a ŵyr beth allai hi ei wneud. Mae pobl yn dweud na ddylwn i drafferthu, ond mae'n anodd oherwydd rwy'n ei charu hi – mae hi'n fam i mi.

**Louise, 16 mlwydd oed** – Rwy'n helpu i ofalu am fy llysfrawd sy'n anabl. Nid yw'n gallu cerdded na siarad, ac oherwydd ei fod e'n drwm, mae angen dau ohonom i'w godi. Fi sy'n helpu fy llysfam i'w godi a rhoi seibiant iddi trwy ei fwydo, helpu iddo wisgo amdano a'i ddiddanu.

**Jamie, 13 mlwydd oed** – Rwy'n byw gartref gyda fy mam sy'n wael ac mae angen help arni gyda'r rhan fwyaf o bethau. Fi sy'n helpu gyda phopeth gan gynnwys y gwaith tŷ, siopa a gofal personol. Mae gofalwyr yn ein cynorthwyo ac yn dod heibio i roi hoe i mi. Rwyf wrth fy modd yn cael helpu, ond weithiau rwy'n ei chael hi'n anodd.

# Adran 7: Beth sydd wedi'i sefydlu ar gyfer Gofalwyr Ifanc yn Nhorfaen ar hyn o bryd?

## Adran 7

## Beth sydd wedi'i sefydlu ar gyfer Gofalwyr Ifanc yn Nhorfaen ar hyn o bryd?

- Mae'r Prosiect Gofalwyr Ifanc yn seiliedig yn y sector gwirfoddol. Caiff y Prosiect ei redeg gan Groesffyrdd De Ddwyrain Cymru ac fe'i ariennir gan Wasanaeth Gofal Cymdeithasol a Thai'r awdurdod lleol, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a ffynonellau elusennol
- Llyfryn gwybodaeth a thaflen hyrwyddo i Ofalwyr Ifanc
- O fewn Croesffyrdd De Ddwyrain Cymru y mae gwasanaeth i gefnogi Gofalwyr Ifanc o bobl â phroblemau iechyd meddwl
- Strategaeth Gofalwyr Torfaen 2008 - 11 (sy'n cynnwys adran am Ofalwyr Ifanc)
- Gwybodaeth i Ofalwyr Ifanc ar wefan Cyngor Torfaen
- Datblygu cyfleusterau ac adnoddau yn y ganolfan ofalwyr yn arbennig ar gyfer Gofalwyr Ifanc
- Ymweliadau asesu ar y cyd gan yr Is-adran Gwasanaethau Plant a Gweithiwr Prosiect Gofalwyr Ifanc Croesffyrdd.

# Adran 8: Blaenoriaethau ar Gyfer 2009 – 2010

Adran 8

## Blaenoriaethau ar Gyfer 2009 – 2010

Mae'r blaenoriaethau ar gyfer Ionawr 2009 - Rhagfyr 2010 yn seiliedig ar:

- Y gwaith a gwblhawyd gan y Grŵp Strategaeth Gofalwyr Ifanc
- Yr wybodaeth a gasglwyd ar ôl ymgynghori â Gofalwyr Ifanc
- Yr wybodaeth sydd wedi deillio o Ymgynghoriad y Fforwm Gofalwyr
- Deddfwriaethau perthnasol
- Y safonau a gynhwysir ym Mhennod 6 o'r NSF sydd a wnelo â Phlant a Phobl Ifanc mewn Amgylchiadau Arbennig ynghyd â phennod 2 – 'Camau Allweddol sy'n Gyffredin i Bob Plentyn'.

Mae Strategaeth 2009 – 2010 wedi pennu deg o flaenoriaethau allweddol fydd yn gwneud gwahaniaeth i Ofalwyr Ifanc:

1. Gwybodaeth mewn lle ar gyfer Gofalwyr Ifanc presennol a darpar Ofalwyr Ifanc i adnabod eu rôl a cheisio asesiadau
2. Datblygu ymhellach grwpiau cefnogaeth gan gymheiriaid (NSF6.2)
3. Ymagwedd gynhwysol at wasanaethau a gwasanaethau ychwanegol wedi'u targedu (NSF6.4)
4. Sefydlu neu gynnal proses o fonitro pwy sy'n defnyddio'r ddarpariaeth o wasanaethau i sicrhau mynediad teg (NSF6.4)
5. Monitro presenoldeb a gofynion am gefnogaeth ychwanegol yn yr ysgol er mwyn sicrhau bod anghenion y gofalwyr yn cael eu bodloni (NSF6.6)
6. Sicrhau y rhoddir proffil uchel i Ofalwyr Ifanc o fewn y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc
7. Codi ymwybyddiaeth ymhlith asiantaethau allweddol ynglŷn â Gofalwyr Ifanc er mwyn adnabod eu hamgylchiadau arbennig a gwneud atgyfeiriadau priodol
8. Cynnal a datblygu asesiadau Gofalwyr Ifanc
9. Datblygu gwaith y Prosiect Gofalwyr Ifanc
10. Cynnal modelau priodol ar gyfer ymgynghori â'r holl Ofalwyr Ifanc a'u teuluoedd.



# Adran 9: Sicrhau bod y Strategaeth yn Arwain at Welliant Mewn Gwasanaethau ar Gyfer Gofalwyr Ifanc

Adran 9

# Sicrhau bod y Strategaeth yn Arwain at Welliant Mewn Gwasanaethau ar Gyfer Gofalwyr Ifanc

Os yw'r strategaeth hon am wella bywydau, a chanlyniadau, ar gyfer y Gofalwyr Ifanc yn Nhorfaen, mae'n bwysig bod y strategaeth a'r cynllun gweithredu'n cael eu monitro. Dylid gwneud hynny trwy gynnal cyfarfodydd grŵp monitro a chyflawni yn rheolaidd.

Dylai'r grŵp monitro gynnwys:

- Gofalwyr Ifanc
- Cynrychiolwyr o'r Prosiect Gofalwyr Ifanc (Croesffyrdd De Ddwyrain Cymru), Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Thai (Gwasanaethau Gofal Cymunedol a Phlant yn ogystal) a staff Addysgol ac Iechyd.

Dylid cynhyrchu adroddiadau blynyddol ac adrodd yn ôl bob chwarter â'r Grŵp Strategaeth Gofalwyr i hysbysu a thrafod cynnydd yn ogystal â grŵp Nod Craidd 2 y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc.



# Atodiad

Deddf Gofalwyr (Cyfle Cyfartal) 2004

Deddf Plant 1989

Deddf Gofalwyr (Cydnabyddiaeth a Gwasanaethau) 1995

Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000

Deddf Plant 2004

Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru)

# Atodiad

## Deddf Gofalwyr (Cyfle Cyfartal) 2004:

Mae'r Ddeddf yn diwygio Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000 a Deddf Gofalwyr (Cydnabyddiaeth a Gwasanaethau) 1995. Mae'r Ddeddf hon yn rhoi mwy o ddewis a chyfleoedd i ofalwyr, er mwyn iddynt gael byw bywyd sy'n fwy boddhaol. Yn yr un modd:

- Mae'n rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i roi gwybod i ofalwyr o bob oed, gan gynnwys Gofalwyr Ifanc, am eu hawliau. Rhaid i'r broses o hysbysu plant am eu hawl i asesiad gael ei wneud yng nghyd-destun asesiadau teulu, a'i gwneud mewn modd priodol.

- Mae'n rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i ystyried a yw'r gofalwr yn gweithio neu'n dymuno gweithio, yn dymuno astudio neu ymgymryd â rhai gweithgareddau hamdden, pan fydd yn ymgymryd ag asesiad gofalwr. Mae hynny'n berthnasol i unrhyw asesiadau a wneir o dan Ddeddf Gofalwyr (Cydnabyddiaeth a Gwasanaethau) 1995, sydd heb derfyn oedran, ac asesiadau o bobl ifanc 16 a 17 oed sy'n gofalu am oedolion a wneir o dan Ddeddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000.

## Deddf Plant 1989:

Bwriad Deddf Plant 1989 yw sicrhau arfer da wrth wneud penderfyniadau gyda, ac ar ran, plant trwy osod amrediad eang o restrau gwirio, dyletswyddau a hawliau ar gyfer y rhai sydd a wnelo â phenderfyniadau o'r fath. Mae'r Ddeddf Plant yn rhoi cyfrifoldebau penodol ar wasanaethau cymdeithasol o ran 'plant mewn angen.' Mae Adran 17 (10) o'r Ddeddf yn datgan y dylid ystyried bod plentyn 'mewn angen' os:

- Yw ef / hi yn annhebygol o gyflawni na chynnal, neu gael cyfle i gyflawni na chynnal, safon resymol o ran iechyd neu ddatblygiad heb y ddarpariaeth ar ei gyfer ef / hi o wasanaethau gan awdurdod lleol neu os bydd ei iechyd ef / hi yn debygol o gael ei niweidio'n sylweddol, neu ei niweidio ymhellach, os na ddarperir gwasanaethau o'r fath iddo ef / hi; neu os

- Yw ef / hi yn anabl.

O ystyried y diffiniad hwn, mewn nifer o achosion bydd plant a phobl ifanc sy'n gyfrifol am ofalu am rywun yn cael eu hystyried yn 'blant mewn angen'. Mae'r atodiad i'r llythyr at Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol gan y Prif Arolygydd (1995) yn datgan 'dylid gweld Cynhalwyr Ifanc sydd â chyfrifoldebau gofal sylweddol, felly, fel plant mewn angen'.

Unwaith y bydd plentyn neu berson ifanc wedi cael ei asesu fel rhywun 'mewn angen', mae'r Ddeddf Plant yn nodi bod rhaid sicrhau bod amrediad o wasanaethau cefnogi ar gael iddynt. Mae Adran 17 (1) yn cyfeirio at ddyletswydd gyffredinol i ddarparu 'amrywiaeth a lefel gwasanaethau sy'n briodol i anghenion y plant hynny'.

## Deddf Gofalwyr (Cydnabyddiaeth a Gwasanaethau) 1995:

Fe ddaeth y Ddeddf hon i rym ym mis Ebrill 1996. Rhy'r Ddeddf hawliau i grŵp mawr o bobl, gan gynnwys plant, sy'n rhoi swm sylweddol o ofal a chefnogaeth i berthnasau neu gyfeillion yn rheolaidd.

Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar wasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol i asesu gallu gofalwr i ddarparu, a pharhau i ddarparu, gofal i'r sawl y maent yn gofalu amdano. Mae'r diffiniad hwn yn cynnwys pobl ifanc dan 18 oed, ac mae'n eu galluogi i ofyn am asesiad pan fo'r sawl y maent yn gofalu amdano yn cael ei (h)asesu.

Fodd bynnag, os nad yw person ifanc yn gofyn am asesiad, fe ddylai'r gwasanaethau cymdeithasol dal ystyried a oes angen cynorthwyo'r plentyn un ai trwy ddarparu gwasanaethau gofal cymunedol ar gyfer y defnyddiwr neu drwy ddarparu gwasanaethau i hyrwyddo lles y plentyn.

## Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000:

Yr unig grwp o bobl ifanc â chyfrifoldebau gofalu sy'n gallu cael budd o'r Ddeddf hon yw'r rhai dros 16 oed sy'n gofalu am rywun dros 18 oed. Mae'r Ddeddf yn galluogi'r bobl ifanc hynny i ofyn am asesiad o'u hanghenion eu hunain gan eu hawdurdodau lleol ac i'r awdurdod lleol ddarparu gwasanaethau i fodloni'r anghenion hynny. Mae hefyd yn bosibl i bobl ifanc dros 16 oed sy'n gofalu am bobl dros 18 oed gael mynediad at daliadau uniongyrchol i helpu iddynt gael mwy o ddewis a rheolaeth dros y gwasanaethau y maent yn eu defnyddio.

## Deddf Plant 2004:

Mae Deddf Plant 2004 yn rhoi dyletswydd ar wasanaethau i sicrhau bod gan bob plentyn, waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau, i gael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i.

## Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru):

Ynseiliedig ar ddarpariaethau Deddf Plant 2004, mae elfen Gofal Plant o'r 'Mesur' yn gosod dyletswyddau ar holl asiantaethau cyhoeddus i rhoi blaenoriaeth i dlodi plant a gosod amcanion clir drwy strategaeth cyhoeddedig (Cynllun Plant a Phobl Ifanc) i leihau tlodi plant yn y blynyddoedd i ddod.